# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 21 Mehefin 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw polisi cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llosgyddion fferm. (WAQ18619)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth yw hynt yr astudiaeth i ddichonoldeb adeiladu ffordd osgoi yn yr Hafod yn Abertawe. (WAQ18620) **R**

**Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu canllawiau sy'n dynodi'n glir effeithiau amgylcheddol y gwahanol ddulliau o losgi gwastraff. (WAQ18621)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ynghylch pa waith sydd wedi'i wneud ar Llais Ifanc mewn perthynas â materion amgylcheddol. (WAQ18648)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Brian Gibbons (Aberafan);** Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu cynghorau cymuned yng Nghymru. (WAQ18622)

**Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y mae gweithredu mentrau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael ar gyllidebau Awdurdodau Lleol. (WAQ18623) **R**

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychiolaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael mewn perthynas â'r cynnig y dylid caniatáu i awdurdodau unedol godi ardrethi busnes atodol. (WAQ18624)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatganoli grym o'r awdurdodau unedol i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. (WAQ18625)

**Rosemary Butler (Dwyrain Casnewydd);** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw aelod o’n cymuned yn cael eu hamddifadu o’u hawl i bleidleisio mewn etholiadau. (WAQ18626)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda Llywodraeth Leol ynghylch y cyllid y mae yn ei dderbyn er mwyn gweinyddu mentrau sy’n deillio o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad. (WAQ18627)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A yw’r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chymdeithas y Cynghorau Cymuned yn ddiweddar ynghylch y grantiau a roddir gan Gynghorau Cymuned i Heddlu De Cymru ar gyfer plismona lleol. (WAQ18628)

**Elin Jones (Ceredigion);** Sut y gall y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref helpu i hyrwyddo diwydiannau ac economi Cymru. (WAQ18629)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymestyn y Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi, a’i gwneud haws i bobl fanteisio arno. (WAQ18630)

**Alison Halford (Delyn);** A oes tystiolaeth fod gweithdrefnau cyfrifo’r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn wrthgynhyrchiol a bod grwpiau gwirfoddol bach yn rhoi’r gorau i’w gweithgareddau o’u herwydd. (WAQ18633)

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn ei hateb i WAQ 18236, a yw’r Gweinidog yn bwriadu sicrhau y cedwir cofnod o’r holl benderfyniadau sy’n cael eu trin fel rhai 'masnachol gyfrinachol'. (WAQ18634)

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn yr ateb i WAQ 18201, beth a olygir wrth y sylw bod y prosiect ‘wedi’i ystyried gan y Cynulliad’? A wnaethpwyd y penderfyniad gan swyddogion neu weinidogion neu a gafwyd pleidlais ar y mater yn y cyfarfod llawn. (WAQ18635)

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn yr ateb i WAQ 18201, a gedwir llygad ar y prosiect o bryd i’w gilydd drwy gydol y cyfnod o 25 mlynedd er mwyn sicrhau ei fod yn dal i roi ‘gwerth am arian’. (WAQ18636)

**Alison Halford (Delyn);** Beth yw’r amcangyfrif o gyfanswm y gost i’r Cynulliad a’i Gyrff Noddedig o gyllido’r ‘pentref arloesi’ yn nociau Abertawe. (WAQ18645)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael drwy’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i bobl sy’n dioddef o glefyd Ménière yng

Nghymru. (WAQ19631)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyfforddi nyrsys sy’n arbenigo mewn ‘cydbwysedd’ i roi gofal arbenigol i’r rhai sy’n dioddef o glefyd Ménière (WAQ18632)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alison Halford (Delyn);** Yn sgîl ei ateb i WAQ 18226, pa gyfarwyddiadau y bydd y Gweinidog yn ei roi i’w swyddogion os parheir i wrthod y ceisiadau am wybodaeth. (WAQ18637)

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn yr ateb i WAQ 18218, beth yw’r ‘cyn hawliau a dyledion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd’ y mae’r Cynulliad wedi’u ‘hysgwyddo’ erbyn hyn. (WAQ18638)

**Alison Halford (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr yn nodi faint a wariodd y Cyrff a Noddir gan y Cynulliad sydd o dan ei awdurdod ef ar Fae Caerdydd yn 2000-1 a 2001-2. (WAQ18639)

**Alison Halford (Delyn);** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i adolygu’r modd y mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gwario’r grant a gaiff gan y Cynulliad, fel y gellir sicrhau cydbwysedd rhwng y Gogledd a’r De. (WAQ18640)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynigion i godi tâl defnyddwyr ffyrdd ar lorïau tramor sy’n defnyddio ffyrdd yn y DU. (WAQ18644)

**Christine Chapman (Cwm Cynon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modd y mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn gweithredu yng Nghymru a nodi ym mha ffyrdd y mae’r cynllun yn gweithredu’n wahanol i’r un yn Lloegr. (WAQ18643)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gynlluniau wrth gefn y mae’r Gweinidog wedi’u gwneud i sicrhau bod yr holl asedau a dyledion a fydd yn codi wrth i Awdurdod Harbwr Caerdydd ddefnyddio’i hawl i gael ei ryddhau o Gytundeb y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2005 yn cael eu dychwelyd i’r Cynulliad neu i un o’i Gyrff Noddedig. (WAQ18647)

**Alison Halford (Delyn);** Beth yw’r amcangyfrif o gyfanswm y gost i’ch adran ac i’r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad o gyllido’r ‘pentref arloesi’ yn nociau Abertawe (WAQ18646)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn yr ateb i WAQ 18200, faint o’r £293 miliwn ar gyfer rhaglenni

cyfalaf ysgolion sydd wedi'i wario hyd yma. (WAQ18642)

**Alison Halford (Delyn);** Yn dilyn yr ateb i WAQ 18200, faint o'r £293 miliwn sydd wedi'i roi i ysgolion yn Nelyn. (WAQ18641)